

Mae pawb yn gyfarwydd â'r symbol  $\pi$  i gynrychioli'r rhif sydd rhyw ychydig dros 3 ac sy'n gysylltiedig ag arwynebedd cylch. Nid yw'n wybodaeth gyffredin fod y symbol hwn wedi ei ddefnyddio am y tro cyntaf gan William Jones o Sir Fôn mewn llyfr a gyhoeddwyd yn 1706, sef *Synopsis Palmariorum Matheseos*. Felly, eleni, rydym yn dathlu trichanmlwyddiant ymddangosiad y symbol hwn. Disgrifiwyd y llyfr hwn yn 1824, dros ganrif ar ôl iddo gael ei gyhoeddi fel hyn 'This work has long been esteemed as a compendious, but comprehensive summary of mathematical science'.

## Bywyd diddorol a syfrdanol

Nid wyf am fanylu ar y llyfr, ond mae bywyd yr awdur yn ddiddorol, ac i raddau helaeth yn syfrdanol. Fodd bynnag, gall y bydd enghraifft neu ddwy o'i gynnwys yn ddiddorol ac yn adlewyrchu'r oes.

a) *A Privateer running at the rate of 10 miles an Hour discovers a Ship, 6 leagues off, making away at the rate of 8 miles an hour; I demand in how many hours can the Privateer come in with the ship*"

b) *A vintener bought a parcel of Clarret and Rhenish wine, which together cost him 120l. As for the separate prices, 'tis only known that their product was equal to 2700l. Required what each cost, 'Yr ateb a roddir yw Clarret 90l a Rhenish 30l, ond mewn gwirionedd, mae Rhenish 90l a Clarret 30l yn gywir hefyd!*

Yn ddiweddarach yn y llyfr, darganfyddir bod  $\pi$  yn sefyll am 'Periphery'. Nid oes unrhyw eglurhad; mae'n ymddangos fel yn y diagram, a rhoddir ei enrhif i 100 o lefydd degol. Mae'r llyfr yn cynnwys gwaith ar fecaneg a geometreg, ond nid wyf am fanylu ymhellach.

## Y Teulu Bulkeley yn talu iddo fynd i Lundain

Ganwyd William Jones yn Llanfihangel Tre'r Beirdd mewn tyddyn o'r enw 'Y Merddyn', nad yw yn bod bellach, yn fab i John George ac Elizabeth Rowland. Mewn ychydig, symudodd y teulu i Dyddyn Bach yn Llanbabo, ac felly, cyfeirir ato fel Pabo gan y Morisiaid yn eu llythyrau. Cafodd addysg yn Llanfechell. Nid oes gofnod, mae'n ymddangos, o'r ysgol ond bu offeriad yno a raddiodd yn Rhydychen. Oherwydd ei lwyddiant yn yr ysgol yma, trefnwyd gan y teulu Bulkeley iddo fynd i Lundain, ac nid oes cofnod iddo ddechrelyd i Gymru.

## Cyhoeddi llyfr Morwrol

Yn Llundain, cafodd le gyda rhyw farsiantwr. Cafodd ofal llong ac aeth i India'r Gorllewin. Bu yng ngwarchae Vigo yn 1702, a daeth oddi yna heb ysbail ond pâr o sisyrnau. Ar ôl iddo ddechrelyd, cyhoeddodd llyfr *New Compendium of the whole Art of Navigation*. Priododd â gweddw ei gyn-

gyflogwr, ac yn 1706 cyhoeddodd y *Synopsis*. Fel y crybwyllwyd eisoes, ymddangosodd  $\pi$  am y tro cyntaf, a hefyd y nodiant dot, ar gyfer y broses fathemategol o ddifferu. Agorodd y *Synopsis* ddrysau pwysig iddo. Daeth i sylw pobl o bwys yn y byd gwyddonol fel Hooke ac Isaac Newton. Bu etifedd yr Arglwydd Macclesfield cyntaf yn ei ysgol, a daeth yn gyfeillgar â'r Barnwr, Yr Arglwydd Hardwicke a bu *on circuit* gydag ef.

## Ei ethol yn Gymrawd o'r Gymdeithas Frenhinol


Collodd arian yn y *South Sea Bubble*, a chafodd Macclesfield swydd segur *Deputy Teller of the Exchequer* iddo gyda chyflog o £200 y flwyddyn, a threuliodd William Jones lawer o'i amser gydag ef yng Nghastell Shirburn yn swydd Rhydychen. Bu ar y pwyllgor a benodwyd gan y Gymdeithas Frenhinol yn 1711, ar gyfer torri'r ddadl ynglŷn â blaenoriaeth datbylygiad y Calewlws, ac yn 1712, etholwyd ef yn F.R.S, gan y Gymdeithas. Cyhoeddodd amryw o bapurau mathemategol gyda'r Gymdeithas Frenhinol a bu'n gyfrifol am gyhoeddi a golygu peth o waith Newton. Ar ddiwedd ei oes bu'n is-lywydd y Gymdeithas.

## Ei fab yn ieithydd penigamp

Yn 1731, pan yn 56 oed, priododd â Mary Nix a oedd yn 25 oed, a bu'n byw yn y Strand yn Llundain. Daeth ei fab ieuengaf, sef Syr William Jones (1746-94), yn brif Farnwr Bengal. Dywedir bod hwn yn ieithydd penigamp a bu'n gyfrifol am greu y gramadeg cyntaf o Sanscrit. Cofiant hwn yw prif ffynhonell hanes William Jones, ond nid oes sôn am y briodas gyntaf.

Awgrymodd Richard Morris i William Jones y dylai ei frawd, Lewis Morris, gael ei ethol i'r Gymdeithas Frenhinol. Ni ddaeth dim o hyn ond bu Lewis ynglŷn â sefydlu'r Gymdeithas a elwir yn awr y Cymmrodorion. Mae llyfrgell William Jones yn bwysig, oherwydd fe'i hystyrid y llyfrgell wyddonol orau yn Llundain ar y pryd. Yr oedd yn cynnwys 15,000 o lyfrau a 50,000 o dudalennau o lawysgrif, gan gynnwys llawysgrif gwreiddiol *Principia* Newton. Yn ôl ewyllys William Jones, yr oedd y llyfrau i fynd i'r Arglwydd Macclesfield, ond nid oedd sôn ynddi am y llawysgrifau. Trannoeth i farw William Jones, daeth dynion Arglwydd Macclesfield i'r cartref a chymryd y cwbl.

Bu llawer o sôn am hyn yn llythyrau'r Morisiaid. Er bod llawer cais wedi bod i'w gweld, gwrthwynebwyd pob un, ond yn 1899, prynodd Syr John William y llyfrau Cymraeg, ac aeth y rhain i'r Llyfrgell Genedlaethol yn Aberystwyth i ffurfio casgliad Syr John Williams. Mae'n debyg mai helynt deuluol yn y teulu Macclesfield oedd y drwg (Ganwyd y trydydd larll yn 1723). Bu ffrac arall yn y teulu Macclesfield ar droad y ganrif hon, a bu arwerthiannau o'r llyfrau a'r llawysgrifau, ac aeth llawysgrif *Principia* Newton i Gaergrawnt.



Wyneb ddalen: *Synopsis Palmariorum Matheseos*.

Mae'n bosibl fod rheswm am yr anfodlonrwydd i ryddhau'r llawysgrifau i'w gael mewn llyfr o dablau mathemategol a gyhoeddwyd yn 1785, ac yn y *Complete Peerage*, lle mae cyfeiriad at helynt yn y teulu Macclesfield yn y 1720au *And they have a story of an Italian Wedding which caused great disturbance in Lord Macclesfield's family which gave rise to a saying that Macclesfield was the making of Jones, and Jones the making of Macclesfield*. Yn yr erthygl ar William Jones mewn argraffiad 2005 o'r *Dictionary of National Biography*, awgrymir bod ystyr cuddiedig heblaw ystyr awlwg i'r geiriau hyn.

Mae'n ddiddorol darganfod yr hyn mae un o'i gyfoeswyr yn ei ddweud amdano. Yn nyddiadur Reuben Barrow a gyhoeddwyd yn 1853 yn y *Philosophical Magazine*, cawn y sylwadau canlynol am William Jones, dan y dyddiad Ionawr 12 1776:

'He was a little short-faced Welshman and used to treat his mathematical friends with a great deal of roughness and freedom', a 'It was Mr Jones's failing to be always speaking of the faults of his mathematical acquaintances:- one was conceited, another was obstinate; this was ignorant and that had some fault or another.'

Yr oedd gan William Jones fywyd cymdeithasol hefyd. Yr oedd yn aelod o un o'r *Hell Fire Clubs* a oedd mewn bodolaeth yn ystod y ddeunawfed ganrif. (Yn rhyfedd iawn, yn argraffiad 1744 o'r Beibl, mae dau lun a nodyn gyda hwn: 'Rhodd Wm. Jones Esqr F.R.S. i'r Cymry'). Oherwydd ei allu, yr oedd Newton ac eraill o fathemategwyr y dydd yn fodlon i drafod eu gwaith gydag ef. Dyna sut y bu mab o dyddyn tlodaidd ym Môn ddringo i fod yn is-lywydd y Gymdeithas Frenhinol yn Llundain.